



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Dogfen ganllawiau anstatudol Rhagfyr 2020

Dyddiad cyhoeddi: 14 Rhagfyr 2020
Y camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Mawrth 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Canllawiau diwygiedig ar categoriadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Trosolwg

Rydym yn cynnal ymgynghoriad ar ddogfen ganllawiau anstatudol, at ddibenion pennu trefniadau newydd ar gyfer categorïadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng yn yr ysgol. Caiff y categorïau eu defnyddio i gasglu gwybodaeth am y ddarpariaeth ar lefel genedlaethol. Bydd yr wybodaeth honno'n cael eu defnyddio yn lleol gan awdurdodau lleol ac ysgolion, er mwyn iddynt roi gwybod i rieni/gofalwyr am y mathau o ysgolion a'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol.

Dylai'r trefniadau newydd ar gyfer categorïadau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gynorthwyo awdurdodau lleol ac ysgolion i gynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn paratoi ar gyfer cyflwyno ein Cwricwlwm newydd i Gymru yn ogystal a'n nod cenedlaethol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, fel sydd wedi'i amlinellu yn y strategaeth Cymraeg 2050. Bydd rôl yr awdurdodau lleol mewn perthynas â chefnogi targedau addysg Cymraeg 2050 yn cael eu pennu yn eu cynlluniau statudol unigol, sef eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Sut i ymateb

Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 26 Mawrth 2021 fan hwyraf.

Gwybodaeth bellach a dogfennau perthnasol

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017)
Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020 (2017)
Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (2019)
Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (2007)

Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol i ail-ddiffinio
ysgolion yn ôl eu darpariaeth addysg cyfrwng
Cymraeg (2020)

Gellir gweld y dogfennau ymgynghori ar wefan
Llywodraeth Cymru, drwy
<https://llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Gymraeg
Addysg a Gwasanaeth Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost:

UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn dileu eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hynny eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gdwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac at ba ddiben, neu os hoffech arfer eich hawl o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Dyma'r manylion cyswllt ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113

Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Cynnwys

1. Cyd-destun yr ymgynghoriad	2
2. Ein rhesymeg dros gynnig y canllawiau hyn	3
3. Adolygiad ar y categorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg	4
4. Y Canllaw	6
5. Y Camau nesaf	7
6. Cwestiynau'r ymgynghoriad	8

1. Cyd-destun yr ymgynghoriad

Gyda chyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru a chyflwyno Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg 10 mlynedd, credwyd y dylid ailedrych ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y broses yn gweithio o fewn y cyd-destun newydd. Nodir y cynigion newydd yn y canllawiau drafft a atodir.

Un egwyddor pwysig wrth adolygu'r trefniadau ar gyfer categorïddio ysgolion oedd sicrhau bod y wybodaeth am y mathau o fodolau ysgol a geir yng Nghymru yn fwy eglur i rieni/gofalwyr. O wneud hyn, y gobaith yw y bydd rhieni/ gofalwyr yn gallu gwneud penderfyniadau mwy hyderus a gwybodus (os oes dewis ar gael) wrth ddewis llwybr addysg i'w plant.

Ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, mae'r trefniadau arfaethedig newydd hyn yn rhoi system ar waith sydd â'r nod o symleiddio'r categorïau ieithyddol presennol mewn ysgolion yn ogystal ag ysgogi ac annog ysgolion i gynyddu faint o Gymraeg a addysgir. I'r perwyl hwn, rydym wedi llunio categorïau sy'n cynnig llwybr datblygu ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n dymuno cynyddu faint o Gymraeg a addysgir yn eu hysgol, gan alluogi trosglwyddo fwy llyfn o un categori i'r llall.

Nid yw categorïddio ysgolion fel hyn yn gysyniad newydd. Gosododd canllawiau anstatudol Llywodraeth Cymru, *Diffinio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg*¹ a gyhoeddwyd yn 2007 y sylfeini cynnar hynny a alluogodd i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, cyrff addysg, rhieni a gofalwyr fabwysiadu fframwaith cyffredin ar gyfer diffinio, dogfennu a thrafod ysgolion cyfrwng Cymraeg, ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y ddwy iaith i raddau amrywiol. Ar hyn o bryd, mae 5 categori o ysgolion cynradd a 4 categori (gyda 4 is-gategori ychwanegol) o ysgolion uwchradd yn cyflwyno gwahanol raddau o'r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r categorïau presennol yn aml yn cael eu camddehongli gan achosi dryswch diangen i rieni/gofalwyr.

Nid yw'r amwysedd hwn ynghylch categorïau ysgolion bob amser yn annog ysgolion i symud ar hyd continwrm iaith na chefnogi'r ymrwymïadau a wnaed yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) awdurdodau lleol i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion. Yn bwysicach na hynny, nid yw bob amser yn rhoi gwybodaeth glir i rieni a gofalwyr am faint o gyfarwyddyd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion yn eu hardal iddynt wneud dewis gwybodus i'w plentyn. Gyda chyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru a chylch CSCA newydd ar y gorwel, mae adolygu'r trefniadau o gwmpas categorïddio ysgolion yn amserol.

Yn y canllawiau hyn rydym am gyflawni'r canlynol:

- Sefydlu patrwm cenedlaethol o ddarpariaeth sy'n syml ac yn glir i rieni ac sy'n gyson ar draws Cymru
- Diffinio'n well y strwythurau sy'n cynnig modelau gwahanol o addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a gosod allan categorïau sy'n;

¹ <https://llyw.cymru/diffinio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg>

- Annog ysgolion i feddwl o'r newydd am eu perthynas gyda'r iaith Gymraeg a sut gall y perthynas honno gael ei datblygu er lles dysgwyr
- Defnyddio modelau arfer gorau er enghraifft E-sgol, canolfannau trochi, cynllun sabothol ar draws Cymru er mwyn annog ac ysbrydoli eraill i gynyddu ei darpariaeth cyfrwng Gymraeg
- Sicrhau y gefnogaeth gorau i ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu eu darpariaeth cyfrwng Gymraeg
- Cefnogi gwaith yr Awdurdod Lleol i gynnig cynlluniau peilot a chynlluniau arloesol fel rhan o'u CSCA newydd

Bydd y canllawiau drafft yr ymgynghorwyd arnynt yma yn disodli'r canllaw '*Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg*'. Bydd unrhyw drefniadau newydd yn parhau'n anstatudol am y tro wrth i ni barhau i gwmpasu opsiynau i osod categorïau iaith ysgolion ar sail statudol gadarnach.

2. Ein rhesymeg dros gynnig y canllawiau hyn

Ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, roedd gan Gymru boblogaeth o ddwy filiwn ac roedd tua miliwn o bobl yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Dros y ganrif ddiwethaf, collodd y Gymraeg dir yn ystod y ddau ryfel byd, ac erbyn dechrau'r mileniwm hwn, dim ond tua 20% o'r boblogaeth a nododd eu bod yn gallu siarad Cymraeg, h.y. tua 600,000 o bobl allan o boblogaeth o 3 miliwn. Er gwaethaf hyn, mae canran sylweddol o'r boblogaeth yn parhau i siarad Cymraeg heddiw ledled Cymru, gan gynnwys canran sylweddol o bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg bob dydd.

Mae rhai ardaloedd sydd â chanran is o siaradwyr Cymraeg wedi gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg dros y blynyddoedd diwethaf, yn dilyn twf addysg Gymraeg, a thueddiadau symudedd sy'n gweld pobl yn symud o ardaloedd gwledig i ardaloedd trefol – ac o'r gogledd a'r gorllewin i'r de-ddwyrain. Mae patrymau addysg cyfrwng Gymraeg a lle darperir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ledled Cymru yn amrywio o ardal i ardal, ac o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Mae nifer o'r gwahaniaethau hyn yn adlewyrchu patrymau defnydd iaith yn y gymuned ehangach ac mae eraill yn adlewyrchu gwahaniaethau yn y ffordd y caiff polisiâu eu gweithredu. Er bod angen i'r system addysg fod yn ddigon hyblyg i adlewyrchu nodweddion ieithyddol gwahanol ardaloedd o Gymru, mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod addysg yn cael ei chynllunio a'i darparu ar sail dealltwriaeth glir o ddeilliannau ieithyddol dysgwyr.

Mae gennym gwricwlwm newydd sy'n rhoi mwy o bwyslais ar feithrin sgiliau Cymraeg ar draws y system addysg gyfan, rydym hefyd yn gweithio o fewn system statudol ddiwygiedig sydd bellach yn gosod disgwyliad ar awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer cynnydd mewn addysg cyfrwng Gymraeg drwy eu CSCA. Daeth rheoliadau newydd i rym ym mis Ionawr 2020 sy'n gosod disgwyliad uwch ar awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer y twf hwn gyda mwy o uchelgais a chyflymder. Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn, mae angen alinio meysydd polisi eraill sy'n effeithio ar ymateb awdurdod lleol i'r lefel newydd hon o ddisgwyliad. Mae categorïddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg yn un maes polisi o'r fath. I lawer o awdurdodau lleol, y categorïau newydd a gyflwynir gan y canllawiau hyn fydd y sbardun ar gyfer cyrraedd eu targedau CSCA unigol.

Nodwyd hyn yn yr adolygiad brys o'r CSCA a gynhaliwyd yn 2017 a hefyd yn yr adroddiad crynhoi ('*Gwella'r Cynllunio Addysg Cyfrwng Gymraeg – Argymhellion Bwrdd Cynghori*

*Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg*², 2019) gan y Bwrdd Cyngori annibynnol a sefydlwyd i ystyried argymhellion yr adolygiad brys. Pwysleisiodd yr adroddiadau hyn yr angen i ddiwygio'n sylweddol y trefniadau presennol ar gyfer categorïedd ysgolion yn seiliedig ar eu darpariaeth Gymraeg. Mae hyn yn gyson hefyd â thargedau a nodir yng nghynllun gwaith Cymraeg 2050 a chynllun gweithredu Cymraeg mewn Addysg 2017-21.

Mewn ymateb i hyn, galwodd y Gweinidog Addysg am adolygiad o'r diffiniadau a'r categorïau presennol o ysgolion yng Nghymru yn ôl cyfrwng addysgu'r ysgol.

Comisiynwyd panel arbenigol o arbenigwyr iaith Gymraeg ac addysg, dan arweiniad cyn Brif Weithredwr Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Meirion Prys Jones, i adolygu'r categorïau presennol o ysgolion yn ôl darpariaeth y Gymraeg ac i gyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella effeithlonrwydd a chysondeb categorïau iaith ysgolion. Derbyniwyd eu hadroddiad ym mis Rhagfyr 2019 a hoffem fanteisio ar y cyfle yma i ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r adolygiad am eu gwaith. Mae'r adroddiad terfynol i'w weld [yma](#).

Y bwriad oedd ymgynghori ar y canllawiau drafft arfaethedig yn gynt yn y flwyddyn, ond gorfododd pandemig Covid-19 at ohirio'r ymgynghoriad hwn hyd nawr.

3. Adolygiad ar y categorïau ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg

Fel rhan o'r adolygiad, rhoddwyd sylw i'r heriau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau presennol, a chyflwynwyd opsiynau newydd i wella effeithiolrwydd a chysondeb yn y defnydd o gategorïau ieithyddol ysgolion.

Yn ogystal â'u hymchwil pen desg a'u dadansoddiad o ddata CYBLD, cyfarfu ac ystyriodd y panel adolygu farn cyfarwyddwyr a staff awdurdodau addysg lleol, Penaethiaid, a chyrrff addysg eraill. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd rhwng swyddogion addysg o wlad y Basg a roddodd gipolwg gwerthfawr ar drefniadau categorïau ysgolion mewn gwlad sy'n rhannu nodweddion ieithyddol tebyg i'n rhai ni yng Nghymru.

O ganlyniad i'r trafodaethau hyn, aeth y panel adolygu ati i weithio ar sail yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Darparu diffiniadau y gellir eu defnyddio i ddisgrifio sefyllfa ieithyddol pob ysgol a gynhelir yng Nghymru.
- Gosod diffiniadau sy'n syml ac yn glir.
- Cyflwyno diffiniadau a fyddai'n sicrhau bod rhieni, llywodraethwyr, athrawon, penaethiaid ac awdurdodau lleol yn deall yn hawdd natur y ddarpariaeth a ddarperir ganddynt neu ar eu cyfer.
- Gosod diffiniadau a fyddai'n helpu i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg gan ddefnyddio'r ddwy iaith yn y system addysg a hwyluso cynnydd ysgolion ar hyd eu taith ieithyddol.
- Wrth greu polisiau lleol, sicrhau bod awdurdodau lleol yn ystyried y strwythur newydd fel ased i'w prosesau cynllunio ac yn hawdd ei fabwysiadu.
- O ran symudedd poblogaeth, darparu cyfres o ddiffiniadau cyson ledled Cymru er mwyn ei gwneud yn llawer haws sicrhau dilyniant priodol i bobl sy'n symud o fewn Cymru neu o'r tu allan i Gymru.

² <https://llyw.cymru/gwellar-broses-cynllunio-addysg-gymraeg>

- Darparu diffiniadau newydd sy'n haws eu deall wrth esbonio nodweddion unigryw Cymru i rieni newydd a'r cyhoedd.
- Gosod diffiniadau syml sy'n esbonio'r ddarpariaeth yn glir gan ddefnyddio nifer cyfyngedig o gategoriâu ac felly ennill ymrwymiad ar gyfer y strwythur newydd.
- Creu trefniant newydd a fyddai'n hwyluso'r broses o symud ysgol o un categori i'r llall ac yn caniatáu mesur llwyddiant y gwahanol gategoriâu.

Roedd y broses hon yn cynnwys:

- Gwerthuso'r diffiniadau presennol a nodi eu cryfderau a'u gwendidau.
- Dadansoddi data CYBLD er mwyn gweld a yw mathau gwahanol o ysgolion cynradd ac uwchradd yn dueddol o weithio mewn clwstwr wrth ddefnyddio rhai meini prawf iaith
- Ceisio barn academyddion sy'n arbenigo mewn gwaith cynllunio iaith, CLILC, Estyn a rhai awdurdodau lleol am opsiynau posibl ar gyfer grwpio dynodiadau.
- Trafodaethau â staff Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â diwygiadau addysg ehangach, gan gynnwys datblygu'r cwricwlwm newydd.
- Ystyried sut mae cymunedau iaith y tu allan i Gymru wedi delio â'r broses o gatgoreiddio ysgolion lle mae dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn ffactor pwysig.

Rhoddwyd sylw penodol i'r canlynol:

- Nifer y dynodiadau, gan ddefnyddio'r dadansoddiad CYBLD o bob ysgol yng Nghymru fel sail
- Y derminoleg a ddefnyddir i ddisgrifio'r categorïau newydd – llythrennau neu rifau
- Cyflwyno is-gategoriâu trosiannol er mwyn pontio rhwng dynodiadau
- Y gwahaniaethau rhwng categorïau cynradd ac uwchradd
- Nodweddion categori ar gyfer dwy ysgol/ffrwd neu fwy
- Yr angen am fodelau mewnbwn ac allbwn ar gyfer y sector cynradd ac uwchradd
- Y defnydd o ganrannau i bennu yr oriau o ddysgu sydd ei hangen er mwyn gwahaniaethu rhwng y categorïau
- Y posibilrwydd o ysgolion, a ffrydiau o fewn ysgolion yn cael eu cynnwys mewn mwy nac un categori.

Roedd rhai o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad yn cynnwys:

3.1 Trefnu ysgolion yng Nghymru yn dri chategori sy'n cael eu gwahaniaethu gan eu darpariaeth a chan eu huchelgais o ran medrau dwyieithog eu dysgwyr. Dylid defnyddio rhifau fel penawdau ar gyfer y categorïau hyn, sef 1, 2 a 3, a dylid cynnwys paragraff esboniadol sy'n rhoi cyfle i esbonio paramedrau'r ddarpariaeth i rieni a'r hyn y gallent ddisgwyl i'w plentyn ei gyflawni'n ieithyddol

3.2 Er bod yr un nifer o gategoriâu'n cael eu hargymell ar gyfer y ddau sector, nid ydynt yn cyfateb yn gyfan gwbl i strwythur y ddarpariaeth addysgol ac mae'r patrwm dilyniant ychydig yn wahanol ym mhob sector. Byddai cael tri chategori yn unig yn golygu y byddai'r ddarpariaeth yn haws i'w hegluro ac yn haws i rieni a llywodraethwyr ysgol ei deall. Mae hyn hefyd yn ystyried y dadansoddiad o ddata CYBLD sy'n dangos bod ysgolion yng Nghymru yn perthyn yn fras i dri grŵp.

3.3 Mewn ysgolion cynradd, byddai'r ddarpariaeth ei hun yn cael ei chategoreiddio yn hytrach na'r ysgol gyfan. Felly, gallai fod mwy nag un categori mewn ysgol. Gallai ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Saesneg mewn darpariaeth un ffrwd a chyfrwng Cymraeg

mewn ffrwd arall fod yn Gategori 1 a Chategori 3. Byddai dealltwriaeth o'r categorïau yn sicrhau bod y ddarpariaeth a gynigir yn glir i rieni. Gallai sefyllfa hefyd ddatblygu lle mae ysgolion dwy ffrwd yn cynnig ffrwd Gymraeg/Saesneg a ffrwd cyfrwng Cymraeg.

3.4 Yn y sector uwchradd, dylid categoreiddio ysgolion fel sefydliadau cyfan.

3.5 Dylid rhoi cyfle i ysgolion ddechrau ar gyfnod pontio wrth iddynt symud o un categori i'r llall. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion dyfu eu darpariaeth Gymraeg dros gyfnod estynedig.

3.6 Dylai newidiadau systemig sy'n deillio o'r broses o gategoreiddio ysgolion adlewyrchu cynnwys Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) pob awdurdod lleol.

3.7 Un o'r egwyddorion craidd yw efallai na fydd ysgolion yn cynnig llai o ddarpariaeth Gymraeg nag a gynigiwyd yn y gorffennol

3.8 Yn gysylltiedig â'r diffiniadau hyn, ac yn cyd-fynd â hwy, mae'r datblygiadau newydd o ran Cwricwlwm Newydd Cymru a'r cysyniad o allu asesu datblygiad iaith disgyblion gan ddefnyddio continwwm un iaith.

Er mwyn profi canfyddiadau'r adolygiad, cynhaliwyd dwy sesiwn ymgysylltu anffurfiol yn ystod mis Chwefror 2020 yng Nghyffordd Llandudno a Chaerfyrddin. Cynrychiolwyd 19 o'r 22 awdurdod lleol, yn ogystal â chynrychiolaeth Pennaeth/UDRh o bob categori ysgol.

4. Y Canllaw

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio casglu barn ynghylch a yw'r canllawiau drafft yn rhoi eglurder a chyfeiriad ynghylch categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r canllawiau drafft wedi'u seilio ar ganfyddiadau'r adolygiad diweddar o categorïau ysgolion.

Mae'r canllawiau wedi'u rhannu'n dair rhan.

- Mae **Rhan 1** yn amlinellu cyd-destun categoreiddio ysgolion yn ôl iaith yr addysgu. Mae hynny'n cynnwys hanes byr am dwf addysg cyfrwng Cymraeg, y pethau sy'n debyg ac yn wahanol ar hyd a lled Cymru ac yn rhyngwladol, a'r modd y mae hynny'n cael effaith ar y ffordd yr ydym yn cynnig adolygu ac addasu'r categorïau gwreiddiol fel eu bod yn cydweddu â'n dyheadau ar gyfer addysg yng Nghymru.
- Mae **Rhan 2** yn amlinellu'r prif newidiadau, sy'n cynnwys lleihau cyfanswm nifer y categorïau i 6; sicrhau bod y categorïau a gyflwynir ar gyfer addysg gynradd ac addysg uwchradd yn cydweddu'n fwy cyson â'i gilydd ond yn rhoi eglurder ynghylch y gwahaniaethau rhwng y ddau sector; sicrhau bod y categorïau'n fwy hyblyg; hwyluso llwybr di-dor o un categori i un arall drwy is-gategorïau trosiannol.
- Mae **Rhan 3** yn amlinellu'r broses a'r amserlen ar gyfer trosi o'r hen drefniadau i'r rhai newydd. Mae'r rhan hon hefyd yn ymdrin â'r materion sy'n debygol o gael eu codi wrth roi'r polisi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys materion fel yr hyn sy'n digwydd os na fydd ysgol neu awdurdod lleol yn gytûn ynghylch y categori y mae'r ysgol yn perthyn.

5. Y Camau nesaf

Cyhoeddi'r canllawiau drafft hyn yn derfynol yw'r cam cyntaf tuag at symud tuag at y trefniadau newydd, gan gynnig fframwaith cenedlaethol trosfwaol ar gyfer pob Awdurdod Lleol ac ysgol. Mae nifer o gamau y bydd angen i ni eu cymryd rhwng cyhoeddi'r canllawiau terfynol a dechrau ei weithredu. Byddwn am weithio'n agos gyda rhan-ddeiliaid yn ystod y cyfnod hwn i gynnig cymorth ac eglurder pellach fel bod Awdurdodau Lleol ac ysgolion yn y sefyllfa orau bosibl i symud ymlaen gyda'r trefniadau newydd. Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgysylltu ag awdurdodau lleol ac ysgolion yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Bydd hyn yn sicrhau bod rhan-ddeiliaid yn gallu rhannu arfer da a chefnogi ei gilydd trwy'r broses.

Rydym hefyd yn awyddus i ystyried datblygu cyfres o ganllawiau ychwanegol manwl wedi'u teilwra i anghenion penodol y rhai y mae'r canllawiau hyn yn effeithio arnynt, ac yn barod i dderbyn adborth ynghylch manteision gwneud hyn. Gall hyn gynnwys canllawiau i ysgolion ar sut y gallai cynnydd yn y ddarpariaeth edrych ar lefel fwy ymarferol, yn ogystal ag adnoddau wedi'u teilwra i sicrhau bod rhieni/gofalwyr yn deall y newidiadau a'r hyn y mae'r cyfan yn ei olygu i'w plentyn.

6. Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – A ydych chi'n cytuno â'r angen i adolygu'r polisi sy'n ymwneud â chategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth o'r Gymraeg?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	--	--------------------------

Unrhyw sylwadau ychwanegol:

Cwestiwn 2 – A ydy'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

Ydyn	<input type="checkbox"/>	Nac ydyn	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-------------	--------------------------	-----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Unrhyw sylwadau ychwanegol

Cwestiwn 3 – A ydyn ni'n cyflawni ein nod polisi o gyflwyno categorïau ar gyfer ysgolion sy'n fwy eglur ar gyfer

(a) rhieni/gofalwyr?

Ydych	<input type="checkbox"/>	Nac ydych	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

(b) awdurdodau lleol?

Ydych	<input type="checkbox"/>	Nac ydych	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

(c) ysgolion?

Ydych	<input type="checkbox"/>	Nac ydych	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 4 – A ydych chi'n cytuno:

(a) â'r defnydd o rifau i gategoreiddio?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	--	--------------------------

(b) â chael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	--	--------------------------

(c) â rhoi mwy o ffocws ar ddisgrifiadau deilliannau ieithyddol i bob categori?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	--	--------------------------

(d) â chyflwyno is-gategorïau i hwyluso cyfnod trosiannol?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	--	--------------------------

(e) â'r dull o wahaniaethu rhwng categoreiddio darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd?

Ydw	<input type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	--	--------------------------

Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

--

Cwestiwn 5 – Wrth gyfeirio at ganrannau yn y categorïau uwchradd, a ddylem gynnwys:

(a) canran isafswm yn unig?

Dylech	<input type="checkbox"/>	Na ddylech	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	-------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

neu

(b) ystod canran isafswm **ac** uchafswm?

Dylech	<input type="checkbox"/>	Na ddylech	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	-------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 6 – A oes angen i ni gyhoeddi canllawiau ychwanegol wedi'u teilwra tuag at grwpiau penodol, er enghraifft ysgolion a rhieni/gofalwyr, yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau hyn yn derfynol?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
------------	--------------------------	----------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

Unrhyw sylwadau ychwanegol

--

Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Canllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 8 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y canllaw arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 9 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: